

Taflen Ffeithiau 2: Cychwyn Arni

Gwych! Rydych wedi cychwyn y siwrnai i fwy o ddewis a rheolaeth dros sut rydych yn byw eich bywyd. Cyn i'ch Taliad Uniongyrchol gychwyn mae rhai pethau sydd angen i chi eu gwneud.

Penderfynu sut fyddwch yn defnyddio'r arian:

- Efallai y bydd angen i chi benderfynu os ydych am ddefnyddio asiantaeth, prynu offer neu nwyddau neu gyflogi eich cymhorthydd personol eich hun i'ch helpu.

Rheoli'r arian:

- Byddwn yn cytuno ar ffordd i reoli'r arian. Rydym eisiau i hyn fod mor syml â phosib i chi.
- Os ydych angen cefnogaeth barhaus byddwn yn eich helpu i benderfynu sut fydd hyn yn cael ei ddarparu
- Bydd y cyngor yn darparu cyfrif ar gyfer eich Taliadau Uniongyrchol. Bydd y cyfrif hwn yn ei gwneud yn llawer haws i reoli eich taliadau uniongyrchol ac yn helpu'r cyngor i fonitro sut mae eich taliadau uniongyrchol yn gweithio
- Peidiwch â phoeni am reoli'r arian. Rydym eisiau sicrhau bod y taliadau uniongyrchol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'ch bywyd ac mae llawer o ffyrdd y gallwn helpu.

Cyfrifon Banc a Reolir

Golyga hyn y byddai'r arian yn cael ei reoli ar eich rhan, mewn cyfrif a gynhelir gan aelod o'r teulu, ffrind agos, neu sefydliad a gymeradwywyd. Golyga hyn y gallwch gael manteision Taliad Uniongyrchol, heb gyfrif banc. Byddech yn parhau i reoli eich cymhorthwyr personol neu ddewis pryd mae'r asiantaeth yn darparu eich gofal, heb orfod trin yr arian i dalu amdanynt.

Y pethau sylfaenol i wybod amdanynt ynglŷn â Thaliadau Uniongyrchol:

- Telir arian i'r cyfrif bob 4 wythnos, oni bai y cytunir yn wahanol.
- Os aseswyd bod angen i chi gyfrannu tuag at eich gofal a'ch cefnogaeth, bydd angen i chi dalu hyn i'ch cyfrif yn rheolaidd.
- Os ydych yn dewis cyflogi cymhorthwyr personol chi fydd y cyflogwr a bydd rhaid i chi ddilyn cyfraith gyflogaeth. Gallwn eich cefnogi i reoli unrhyw gyfrifoldebau a dod yn gyflogwr da.

Mae cefnogaeth a chyngor ar gael gyda phob agwedd ar ddefnyddio a rheoli Taliadau Uniongyrchol, felly peidiwch â phoeni.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk